

Datgelu Camarfer

Cyfarwyddyd i Staff

Ebrill 2020

sirgar.gov.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Beth yw Datgelu Camarfer?	1
3. Beth yw agwedd y Cyngor at gamarfer yn y gweithle?	1
4. Sut y byddaf yn cael fy niogelu os byddaf yn datgelu camarfer?	2
5. Pam ddylwn i Ddatgelu Camarfer?	2
6. Pwy allaf gysylltu â nhw os oes gennyf bryder difrifol?.....	2
7. A allaf roi gwybod am fy mhryder yn ddienw?	2
8. Beth fydd yn dgwydd ar ôl i mi roi gwybod am fy mhryderon?	2
9. Beth sy'n digwydd os ydw i'n dal yn anfodlon ag ymateb y Cyngor?.....	3

1. Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen hon fel canllaw byr i weithdrefnau a [Pholisi Datgelu Camarfer](#) y Cyngor. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, dylech gyfeirio at y Polisi llawn sydd ar gael ar y Fewnwyd neu siaradwch â'ch rheolwr llinell, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, Swyddog Datgelu Camarfer neu eich cynrychiolydd Undeb Llafur.

Ni fydd y rhan fwyaf o weithwyr yn wynebu'r penderfyniad anodd o adrodd neu roi gwybod am gamweithredu difrifol yn y gwaith, ond os cewch eich rhoi yn y sefyllfa hon, dylech fod yn ymwybodol bod gan y Cyngor weithdrefnau ar waith i'ch diogelu. Mewn gwirionedd, mae hyn yn ofynnol yn ôl Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998.

2. Beth yw Datgelu Camarfer?

Datgelu Camarfer yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio datgelu gwybodaeth gan weithiwr, hynny yw gweithwyr, gweithwyr achlysurol, staff asiantaeth, contractwyr neu wirfoddolwyr, am gamarfer yn ogystal ag anwaith neu weithredoedd anghyfreithlon yn y gwaith.

3. Beth yw agwedd y Cyngor at gamarfer yn y gweithle?

Nod y Polisi Datgelu Camarfer yw cynnwys y pryderon sydd er budd y cyhoedd **ac** sydd y tu allan i gwmpas gweithdrefnau cyflogaeth eraill. Er enghraifft, os oes gennych achwyniad mewn perthynas â'ch cyflogaeth, dylech ddefnyddio Gweithdrefn Achwyniadau'r Cyngor. Os ydych yn pryderu am fwlio neu aflonyddu yn y gwaith, dylech ddefnyddio [canllawiau'r Cyngor ynghylch Safonau Ymddygiad](#). Fe'ch anogir i ddatgelu camarfer os ydych yn credu bod camymarfer wedi digwydd yn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

- Tramgwyddau troseddol
- Torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Perygl i iechyd a diogelwch unigolyn
- Niwed i'r amgylchedd
- Celu gwybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau uchod yn fwriadol.

Dylech ddarllen y Polisi ar y cyd â [Chôd Ymddygiad y Swyddogion](#) ac unrhyw weithdrefnau adrannol ar gyfer ymchwilio i bryderon.

4. Sut y byddaf yn cael fy niogelu os byddaf yn datgelu camarfer?

Mae'r Polisi Datgelu Camarfer yn caniatáu ichi leisio eich pryderon yn gyfrinachol, heb ofni unrhyw erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais.

5. Pam ddylwn i Ddatgelu Camarfer?

Rydym yn cymryd unrhyw gamarfer o ddifrif o fewn y Cyngor ac os oes gennych bryderon difrifol ynghylch unrhyw agwedd ar waith y Cyngor yna fe'ch anogir i roi gwybod am y pryderon hynny a'u mynegi yn ôl y disgwyl.

Ymdrinnir â chi'n brydlon ac yn briodol. Gallech fod yn diogelu eich cydweithwyr, y cyhoedd ac eraill drwy wneud hynny, gan sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r broblem ac yn gallu ymdrin â hi.

6. Pwy allaf gysylltu â nhw os oes gennyf bryder difrifol?

Ni ddylech fynd at unigolion, eu cyhuddo'n uniongyrchol na cheisio ymchwilio i'r mater eich hunan. Dylech roi gwybod am eich pryderon i Swyddog Datgelu Camarfer neu enwau cyswllt eraill a enwir yn y Polisi.

7. A allaf roi gwybod am fy mhryder yn ddienw?

Gallwch fynegi'r pryderon yn ddienw, ond mae'n llai effeithiol a bydd yn cael ei ystyried yn ôl disgresiwn y Swyddog Monitro.

Cofiwch fod y Polisi Datgelu Camarfer yn eich diogelu ac yn eich helpu i fynegi eich pryder yn hyderus.

8. Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi roi gwybod am fy mhryderon?

Byddwch yn cael cymaint o adborth â phosibl ynglŷn â sut yr ymdrinnir â'r mater, fel arfer gan y person y gwnaethoch roi gwybod iddo am eich pryder. Bydd hyn yn destun diogelu data a chyfrinachedd.

9. Beth sy'n digwydd os ydw i'n dal yn anfodlon ag ymateb y Cyngor?

Diben y Polisi yw rhoi ffordd ichi fynegi eich pryderon o fewn y Cyngor ac rydym yn gobeithio eich bod yn fodlon â'r ffordd yr ymdrinnir â nhw. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon yna mae croeso ichi gysylltu â Phrif Weithredwr y Cyngor, neu Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau neu'r pwyntiau cyswllt allanol fel y disgrifir yn y Polisi.

Mae'r Polisi Datgelu Camarfer yn cydnabod dyletswydd y Cyngor i roi cymorth i weithwyr sy'n canfod eu hunain yn yr amgylchiadau anodd hyn. Mae dulliau cefnogi eraill ar waith megis y [Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad](#), y [Polisi Achwyniadau](#), y [polisiau Rheoli Straen ac Iechyd Meddwl yn y Gweithle](#) neu'r [Gwasanaethau Iechyd a Llesiant Galwedigaethol](#).

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y Fewnrwyd neu cysylltwch â'ch Cynrychiolydd Undeb Llafur neu'r Tîm Adnoddau Dynol drwy ffonio 01267 246129.